

Ydych chi'n barod am fis llawn hwyl ac antur?

Boed hynny'n weithgaredd y dydd neu'n osod nod wythnosol drwy gydol mis Mehefin, mae 30 Diwrnod Gwyllt yma i'ch helpu chi i gysylltu â byd natur, cefnogi bywyd gwyllt a mwynhau'r awyr agored. **Byddwch yn barod i archwilio, symud, creu a darganfod!**

WEEK 1: 1st - 7^{fed} Helpu bywyd gwyllt lle rydw i'n byw

Mae angen ein help ni ar fywyd gwyllt! Dyma rai syniadau y gallech chi roi cynnig arny'n nhw yr wythnos yma i helpu i wneud gwahaniaeth:

- Ewch i gasglu sbwriel yn eich cae chwarae, yn y parc lleol neu ar y traeth.
- Gadewch fwyd a dŵr allan i adar a bywyd gwyllt arall
- Adeiladwch westy pryfed, tŷ adar
- neu gartref draenogod yn eich gardd.
- Plannwch hadau a thyfu eich blodau gwyllt, perlysiâu neu lysiau eich hun a helpu pryfed peillio ar yr un pryd.

WEEK 2: 8^{fed} - 14^{eg} Darganfod bywyd gwyllt gyda fy synhwyrâu

Mae symud eich corff y tu allan ym myd natur yn llawer o hwyl! Beth am roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau gwyllt yma:

- Casglwch oedolion a phlant i fynd allan ar antur grŵp – archwilio parc, coetir neu lwybr natur newydd.
- Rhowch gynnig ar ioga bywyd gwyllt – pwy yw'r gorau am ymestyn fel llwynog neu gadw balans fel crêyr glas?
- Dawnsiwch fel eich hoff anifail – gwibio fel gwenynen fêl neu neidio fel garan!
- Chwaraewch fingo synhwyrâid – defnyddiwch eich synhwyrâu i ddod o hyd i wahanol weadau, arogleuon a synau ym myd natur.
- Rhowch gynnig ar ymdrochi yn y goedwig – eistedd yn dawel ymysg coed, gwranddo ar y synau a mwynhau'r heddwch.

WEEK 3: 15^{ed} - 21^{ain} Dysgu am fywyd gwyllt

Mae byd natur yn llawn rhyfeddodau! Defnyddiwch yr wythnos yma i wella eich gwybodaeth am fywyd gwyllt a'ch sgiliau adnabod:

- Edrychwch ar y poster a'r taflenni gweithgarwch yn eich pecyn am ffeithiau rhyfeddol am infertebrata. Allwch chi weld unrhyw rai wrth archwilio?
- Darllenwch lyfr am fyd natur – mae cymaint o straeon a ffeithiau rhyfeddol i'w darganfod!
- Lawrlwythwch ganllaw adnabod i weld faint o greaduriaid allwch chi ddod o hyd iddyn nhw.
- Gwnewch eich canllaw natur eich hun – tynnu llun ac ysgrifennu am y planhigion a'r anifeiliaid sy'n agos atoch chi.
- Ymunwch â sgwrs bywyd gwyllt a dysgwch gan arbenigwyr.

WEEK 4: 22^{ain} - 30^{ain} Bod yn greadigol gyda natur a dathlu

Yr wythnos yma beth am i ni fod yn greadigol gyda byd natur. Beth am roi cynnig ar rywbeth newydd? Dyma rai syniadau i chi...

- Dechreuwch gadw dyddiadur natur – tynnu llun, ysgrifennu neu ludo dail a phetalau arbennig ynddo.*
- Ewch ati i greu llun gwyllt gan ddefnyddio dail, brigau a blodau*
- Ysgrifennwch stori am anifail neu antur wyllt hudolus.
- Gwasgwch flodau i wneud addurniadau naturiol hardd.*
- Byddwch yn greadigol gyda'ch gwastraff a gwneud compost o sborion cegin. Ffordd wych o ddysgu am sut mae byd natur yn ailgylchu.

*** Please don't pick wildflowers!**
Opt for fallen flowers or those in your garden